YSTADEGAU SWYDDOGOL

Ystyriaeth arbennig ar gyfer arholiadau TGAU a Safon Uwch I Gymru: cyfres arholidau Haf 2022

11 Tachwedd 2022

Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn darparu gwybodaeth am nifer y ceisiadau ystyriaeth arbennig a chymeradwyaethau ar gyfer unedau/cydrannau unigol o fewn TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2022. Cafodd y ceisiadau hyn eu cyflwyno gan ganolfannau yng Nghymru i fyrddau arholi. Gan fod arholiadau'r haf wedi'u canslo yn 2020 a 2021, nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys data ar gyfer 2020 na 2021.

Uchafbwyntiau

Ffigur 1: Nifer y ceisiadau ystyriaeth arbennig



Ffynhonnell: 2018 i 2022 - Cyrff dyfarnu; 2016 i 2017 – Ofqual

Roedd 40,030 o geisiadau ystyriaeth arbennig yn 2022, cynnydd o 4.6% o'i gymharu â 2019. Cafodd 92.1% o geisiadau eu cymeradwyo yn 2022, o'i gymharu â 90.1% yn 2019. Mae'r ceisiadau a gymeradwywyd yn cynrychioli 3.8% o'r holl asesiadau a gynhaliwyd yn haf 2022, cynnydd cyfrannol bach o'i gymharu â 3.4% yn 2019.

Ffigur 2: Dosbarthiad addasiadau marciau



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu

Y tariff mwyaf cyffredin yn 2022 oedd 2%, gyda 32.3% o addasiadau marciau cymeradwy yn derbyn 2% ychwanegol o uchafswm y marciau.

Dolenni cyflym:

Beth yw ystyriaeth arbennig?
Cyfanswm ceisiadau
Ceisiadau cymeradwy
Ceisiadau yn ôl pwnc
Ceisiadau yn ôl math
Addasiadau marciau

Ystadegydd:
Hannah Williams 01633 373 292
ystadegau@cymwysteraucymru.org
Ymholiadau'r cyfryngau:
01633 373 222
cyfryngau@cymwysteraucymru.org

Y diweddaraiad nesaf Tachwedd 2023 (dros dro)

Beth yw ystyriaeth arbennig?

Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y JCQ yn nodi mai ystyriaeth arbennig yw addasiad ôl-arholiad i farc neu radd ymgeisydd i adlewyrchu salwch/anaf dros dro neu ddigwyddiad arall y tu allan i reolaeth yr ymgeisydd ar adeg yr asesiad, sy'n rhesymol debygol o fod wedi cael effaith sylweddol ar eu gallu i sefyll asesiad neu ddangos eu gwir lefel cyrhaeddiad. Dim ond data ar gyfer ceisiadau ystyriaeth arbennig a gyflwynir gan ysgolion a cholegau y mae'r datganiad hwn yn ei gynnwys. Nid yw addasiadau marciau nad oeddent o ganlyniad i gais gan ysgol neu goleg wedi'u cynnwys. Ceir rhagor o wybodaeth am ystyriaeth arbennig yn y nodiadau cefndir a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r datganiad hwn.

Ydy ceisiadau ystyriaeth arbennig wedi cynyddu yr haf hwn?

Ffigur 3: Nifer y ceisiadau ystyriaeth arbennig

Cyfres yr Haf, 2016 i 2022



Ffynhonnell: 2018 i 2022 - Cyrff dyfarnu; 2016 i 2017 - Ofqual

Cynyddodd nifer y ceisiadau ystyriaeth arbennig 4.6% yn 2022 o'i gymharu â 2019, y flwyddyn ddiwethaf y cynhaliwyd arholiadau'r haf. Gwnaed 40,030 o geisiadau yn 2022, o'i gymharu â 38,280 yn 2019 a 41,650 yn 2018.

Cynyddodd ceisiadau a gymeradwywyd 7.0% o 34,480 yn 2019 i 36,885 yn 2022. Yn 2022, cymeradwywyd 92.1% o'r holl geisiadau, o'i gymharu â 90.1% yn 2019.

Pa gyfran o'r holl asesiadau gafodd eu cais am ystyriaeth arbennig wedi'i gymeradwyo?

Ffigur 4: Ceisiadau a gymeradwywyd fel cyfran o'r holl asesiadau



Ffynhonnell: 2018 i 2022 - Cyrff dyfarnu; 2017 - Ofqual

Ar y cyfan, safwyd llai o asesiadau yn haf 2022 nag yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd addasiadau i asesiadau yn haf 2022 yn golygu, ar gyfer rhai pynciau, nad oedd yn rhaid i ddysgwyr sefyll cymaint o asesiadau ag arfer i ennill gradd. Allan o gyfanswm o 963,950 o asesiadau a gynhaliwyd yn haf 2022, roedd gan 3.8% gais ystyriaeth arbennig wedi'i gymeradwyo. Mae hyn yn gynnydd bach o 0.4 pwynt canran o'i gymharu â 2019, pan gafodd 3.4% o asesiadau gais ystyriaeth arbennig wedi'i gymeradwyo.

Sut mae ceisiadau ystyriaeth arbennig yn amrywio yn ôl pwnc?

Ffigur 5: Ceisiadau ystyriaeth arbennig TGAU yn ôl pwnc

Y 15 uchaf, cyfres yr haf, 2019 a 2022



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu

TGAU Saesneg oedd â'r nifer fwyaf o geisiadau ystyriaeth arbennig yn haf 2022, sef cynnydd o 27.3% o'i gymharu â 2019. Gwyddoniaeth: Dyfarniad Dwbl, a gafodd y nifer fwyaf o geisiadau yn 2018 a 2019, oedd â'r ail nifer fwyaf o geisiadau ond gwelwyd gostyngiad o 4.6% yn 2022 o'i gymharu â 2019.

Ffigur 6: Ceisiadau ystyriaeth arbennig UG a Safon Uwch yn ôl pwnc

Y 15 uchaf, cyfres yr haf, 2019 a 2022



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu

Ar gyfer UG a Safon Uwch, Bioleg, Cemeg a Seicoleg oedd â'r nifer fwyaf o geisiadau ystyriaeth arbennig. O'i gymharu â 2019, cynyddodd ceisiadau yn 2022 yn ymwneud ag asesiadau Bioleg, Cemeg a Seicoleg 30.4%, 13.9% a 56.5% yn y drefn honno. Gwelodd Mathemateg, a gafodd y nifer fwyaf o geisiadau yn 2018 a 2019, 34.9% yn llai o geisiadau yn 2022 nag yn 2019.

Mae sawl rheswm pam fod nifer y ceisiadau am ystyriaeth arbennig yn amrywio fesul pwnc, ac mae'n bwysig ystyried y canlynol wrth ddehongli'r data:

- gwneir ceisiadau am asesiadau unigol;
- gellir gwneud sawl cais am yr un cymhwyster;
- mae cymwysterau gwahanol yn cynnwys niferoedd gwahanol o asesiadau;
- gwnaeth addasiadau i asesiadau yn haf 2022 ostwng cyfanswm yr asesiadau yr oedd dysgwyr angen eu cymryd mewn rhai pynciau, ond nid eraill;
- mae nifer y ceisiadau am bwnc penodol yn gysylltiedig â nifer y cofrestriadau, a fydd yn amrywio o bwnc i bwnc.

Sut mae ystyriaeth arbennig yn cael ei rhannu rhwng gwahanol fathau o geisiadau?

Ffigur 7: Cyfran y ceisiadau unigol a grŵp a gyflwynwyd



Ffynhonnell: 2018 i 2022 - Cyrff dyfarnu; 2017 - Ofqual

Gellir gwneud ceisiadau ar gyfer ymgeisydd unigol, neu ar gyfer grŵp o ymgeiswyr os ydynt wedi'u cysylltu gan anfantais gyffredin. Ceisiadau ystyriaeth arbennig unigol oedd yn parhau i ffurfio'r rhan fwyaf (94.7%) o'r holl geisiadau yn haf 2022, i fyny o 93.7% yn haf 2019.

Meintiau grwpiau llai oedd fwyaf cyffredin, gyda grwpiau o 2 i 20 ymgeisydd yn cyfrif am 75.1% o'r holl geisiadau grŵp yn haf 2022.

Tabl 1: Nifer y ceisiadau grŵp yn ôl maint grŵp

Haf 2022

Maint grŵp	Nifer y ceisiadau	Canran cyfanswm y ceisiadau
2-5	170	29.8%
6-10	120	21.0%
11-20	140	24.3%
21-50	90	15.4%
51-100	35	6.3%
101-200	15	2.8%
201+	*	0.4%
Cyfanswm	**570**	**100.0%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu

Ffigur 8: Ceisiadau ystyriaeth arbennig wedi'u cymeradwyo yn ôl y math o gais

Cyfres yr Haf, 2016 i 2022



Ffynhonnell: 2018 i 2022 - Cyrff dyfarnu; 2016 i 2017 - Ofqual

Mae dau gategori gwahanol o ystyriaeth arbennig: addasu marciau a dyfarnu cymwysterau. Gwneir ceisiadau am addasu marciau mewn achosion lle mae dysgwr yn bresennol ar gyfer yr asesiad ond o dan anfantais. Gwneir ceisiadau am ddyfarnu cymwysterau mewn achosion lle mae dysgwr yn absennol o asesiad wedi'i amserlennu.

Addasu marciau sy'n parhau i ffurfio'r rhan fwyaf o geisiadau am ystyriaeth arbennig a gymeradwywyd, ond roeddent yn gyfran lai o geisiadau a gymeradwywyd yn haf 2022 nag yn y blynyddoedd blaenorol. Yn 2022, roedd 90.1% o geisiadau a gymeradwywyd yn geisiadau am farciau ychwanegol, o'i gymharu â 94.2% yn 2019 a 95.7% yn 2018.

Cynyddodd nifer y ceisiadau a gymeradwywyd am ddyfarniad cymhwyster 81.2% o 2,015 yn 2019 i 3,650 yn 2022.

Pa addasiadau a wneir o ganlyniad i geisiadau am ystyriaeth arbennig?

Ffigur 7: Addasiadau marciau wedi'u cymeradwyo yn ôl tariff addasu marciau

Cyfres yr Haf, 2017 i 2022



Ffynhonnell: 2018 i 2019 - Cyrff dyfarnu; 2017 - Ofqual

Pan fydd cais yn cael ei gymeradwyo ar gyfer dysgwr a oedd yn bresennol ar gyfer yr asesiad ond sydd dan anfantais, gellir addasu marc y dysgwr. Ar gyfer pob addasiad, mae canran o'r uchafswm marciau sydd ar gael yn cael ei ychwanegu at y marc a roddir gan y marciwr. Y tariff addasu mwyaf sydd ar gael yw 5% o uchafswm y marciau sydd ar gael. Ar gyfer pob cais, y bwrdd arholi sy'n penderfynu pa dariff i'w ddefnyddio. Os caiff y cais ei adolygu ond yr ystyrir bod ychwanegu marciau yn amhriodol, gall byrddau arholi ddewis peidio â gwneud unrhyw newid i farc yr ymgeisydd (h.y. addasiad o 0%).

Mae dosraniadau addasiadau marciau ar draws pob tariff yn 2022 yn weddol debyg i 2019. Ychwanegu 2% o'r uchafswm marc oedd yr addasiad marc mwyaf cyffredin a wnaed yn haf 2022. Derbyniodd 32.3% o addasiadau marciau cymeradwy y tariff hwn, cynnydd o 1.8 pwynt canran o'i gymharu â 2019. Nid oedd unrhyw addasiadau o 0% yn 2022.

© (2022) Rhoddir caniatâd i'w atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.